Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

# Cyfraddau Cyfranogiad ar gyfer Myfyrwyr Cymreig mewn Addysg Uwch yn y DU yn ystod 2003/04

25 Hydref 2006

W06/43HE

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

# CYFRADDAU CYFRANOGIAD AR GYFER MYFYRWYR CYMREIG MEWN ADDYSG UWCH YN Y DU YN YSTOD 2003/04

## CYFLWYNIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth am y lefelau o gyfranogiad mewn addysg uwch (AU) ar draws Cymru ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2001/02, 2002/03 a 2003/04.

2 Nod yr adroddiad yw diweddaru gwybodaeth am gyfranogiad ar gyfer blynyddoedd academaidd cynharach a gyhoeddwyd o'r blaen gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn yr adroddiad Cyfraddau Cyfranogiad ar gyfer Myfyrwyr Cymreig mewn Addysg Uwch yn y DU yn ystod 2000/01 (W03/17HE). Ar gyfer yr adroddiad hwn, gwnaed nifer o newidiadau i'r fethodoleg a eglurir yn Atodiad B, felly dylid cymryd gofal wrth wneud cymariaethau rhwng yr adroddiad hwn a W03/17HE.

3 Cyflwynir gwybodaeth am gyfraddau cyfranogiad mewn AU mewn cyfres o fapiau a siartiau yn Adran 1. Dangosir y wybodaeth yn ôl Awdurdod Unedol, ac mae'r mapiau'n dangos sut mae lefelau cyfranogiad yn amrywio yn ôl oedran, modd astudio a rhyw ar hyd a lled Cymru. Mae'r siartiau cyfatebol yn dangos y data mewn ffordd arall. Yn dilyn hyn, mewn cyfres o siartiau yn Adran 2, cymherir cyfraddau cyfranogiad ar gyfer pob un o'r grwpiau o fewn pob Awdurdod Unedol.

4 Yn nhablau Atodiad A, darperir ystadegau cyd-destunol am y sector AU yng Nghymru a thueddiadau mewn cyfranogiad myfyrwyr rhwng y blynyddoedd academaidd 2001/02 a 2003/04.

## CEFNDIR

5 'Ymgeisio'n Uwch' yw strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer sector AU cystadleuol, cadarn a chynaliadwy yng Nghymru. Fel rhan o'r strategaeth hon, un o flaenoriaethau addysgol allweddol Llywodraeth y Cynulliad a CCAUC yw cynyddu nifer y myfyrwyr AU o gymdogaethau lle mae'r gyfran o'r boblogaeth sy'n astudio yn y sector AU (h.y. y gyfradd cyfranogiad) yn isel iawn yn draddodiadol.

6 Dengys y dangosyddion perfformiad cyhoeddedig ar gyfer sefydliadau addysg uwch (SAUau) y DU (cyhoeddiad CCAULI 2003/59, www.hefce.ac.uk/learning/perfind/2003/ ar gyfer 2001/02, a chyhoeddiadau ar-lein yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU/HESA) o 2002/03 ymlaen, www.hesa.ac.uk/pi) fod Cymru'n gwneud yn dda o'i chymharu â gweddill y DU o ran darparu mynediad i AU i bobl o ardaloedd dan anfantais. Ond er mwyn cynnal a gwella ar y llwyddiant hwn, mae angen dadansoddi ac adolygu o bryd i'w gilydd y patrymau o gyfranogiad ar draws Cymru, yn ogystal ag annog sefydliadau i dargedu myfyrwyr o ardaloedd dan anfantais drwy ysgogiadau megis premiymau cyllid ar gyfer ehangu mynediad, a chynlluniau eraill.

7 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi darlun o ddosbarthiad myfyrwyr AU o Gymru yn SAUau y DU (gan gynnwys y Brifysgol Agored) a gyllidir gan arian cyhoeddus, ac mewn colegau addysg bellach (CABau), yn y blynyddoedd academaidd 2001/02, 2002/03 a 2003/04. Seilir y dadansoddiad ar ddata a gasglwyd gan yr AYAU, Llywodraeth y Cynulliad, y Cyngor Dysgu a Sgiliau a Chyngor Cyllido'r Alban.

## Y FETHODOLEG

8 Cyflwynir y cyfraddau cyfranogiad yn yr adroddiad hwn yn ôl 22 Awdurdod Unedol Cymru. Defnyddiwyd cod post cyfeiriad cartref y myfyriwr i ddarganfod ym mha Awdurdod Unedol yr oedd pob myfyriwr Cymreig yn byw. Gallai'r cyfraddau cyfranogiad ar gyfer yr ardaloedd hyn gael eu diffinio symlaf fel nifer y myfyrwyr AU o'r ardal wedi'i rannu â'r boblogaeth breswyl. Sut bynnag, nid yw'r diffiniad hwn o gyfranogiad yn rhoi ffigurau y gellir eu cymharu'n deg ar sail ranbarthol gan fod proffiliau rhyw ac oedran y rhanbarthau'n amrywio.

9 Er mwyn cymryd i ystyriaeth wahanol broffiliau rhyw ac oedran ardal leol, defnyddiwyd y cyfraddau cyfranogiad cenedlaethol Cymreig, wedi'u hagregu yn ôl oedran a rhyw, i gyfrifo nifer y myfyrwyr AU y gellid ***disgwyl*** iddynt ddod o unrhyw Awdurdod Unedol neilltuol. Y nifer disgwyliedig o fyfyrwyr ar gyfer ardal yw nifer y myfyrwyr a fyddai'n byw yn yr ardal honno pe bai'r patrymau cyfranogiad yn adlewyrchu'r rheiny ar gyfer Cymru gyfan.

10 Mae'r ***Gyfradd Cyfranogiad Safonol*** (CCS) a ddefnyddir drwy gydol yr adroddiad hwn yn ei gwneud hi'n bosibl i gymharu cyfraddau cyfranogiad rhanbarthol yn deg â'i gilydd. Fe'i diffinnir fel y gwahaniaeth rhwng y nifer o fyfyrwyr AU sy'n byw mewn ardal wedi'i rannu â'r nifer disgwyliedig o fyfyrwyr ar gyfer yr ardal honno, a'r cyfartaledd cenedlaethol safonedig (sef 100). Er nad yw'n gyfradd mewn gwirionedd, gan fod y gwahaniaeth wedi'i gymryd o'r cyfartaledd cenedlaethol, cyfeirir ati drwy gydol y ddogfen hon fel y CCS ac fe'i defnyddir er mwyn eglurder.

11 Os oes gan ranbarth neilltuol CCS negyddol, yna yr oedd llai o fyfyrwyr AU o'r ardal honno nag y byddid yn ei ddisgwyl ar sail y cyfartaledd cenedlaethol Cymreig. Mae gan ranbarth gyda gwerth CCS o fwy nag 1 gyfran uwch o'r boblogaeth yn astudio ar gyfer cymhwyster AU na'r disgwyl, ac mae gan ranbarth sydd â CCS o 0 lefel o gyfranogiad sy'n union yr un fath â'r cyfartaledd cenedlaethol.

12 Mae'r data hyn am gyfranogiad a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r mapiau, siartiau a thablau yn yr adroddiad hwn wedi cymryd i ystyriaeth:

- myfyrwyr sy'n rhoi cod post annilys neu ddim cod post o gwbl;
- newidiadau i ddata cyfrifiad i leoli myfyrwyr yn eu cyfeiriadau cartref;
- amcangyfrifon poblogaeth canol y flwyddyn.

Rhoddir manylion technegol pellach am y dulliau cyfrifo yn Atodiad B.

13 I gyfrifo cyfradd cyfranogiad manwl gywir ar gyfer ardal mae'n rhaid cael y nifer o fyfyrwyr o'r ardal honno, wedi'i benderfynu yn ôl eu cod post cartref, a chyfanswm y boblogaeth yn yr ardal, a geir o ddata poblogaeth sy'n rhoi myfyrwyr yn eu cyfeiriadau cartref.

14 Ceir y data poblogaeth a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn o Gyfrifiad 2001. O ganlyniad i newidiadau yn y ffordd y casglwyd y data yn 2001, rhoddir myfyrwyr yn eu cyfeiriadau yn ystod y tymor. Mae Atodiad B yn egluro pam y mae hyn yn broblem a sut mae poblogaeth sylfaen wedi cael ei hamcangyfrif i leoli myfyrwyr yn eu cyfeiriadau cartref.

15 Mae'r problemau sydd wedi codi wrth bennu poblogaeth sylfaen briodol wedi peri anhawster posibl wrth gyfrifo cyfraddau cyfranogiad manwl gywir ar gyfer israddedigion amser-llawn o dan 25 oed o Geredigion. Dangosir bod cyfranogiad gan y grŵp hwn o fyfyrwyr o Geredigion yn isel iawn, ond mae cyhoeddiadau blaenorol wedi dangos ei fod yn uchel. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn yw'r proffiliau gwahanol iawn rhwng y boblogaeth breswyl a'r boblogaeth o fyfyrwyr sy'n byw yn Aberystwyth, sy'n effeithio ar y dull a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn i bennu'r boblogaeth sylfaen. Trafodir y mater hwn ymhellach yn Atodiad B.

16 Felly mae'r cyfraddau cyfranogiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn rhoi darlun cyffredinol a dylid ystyried mai amcangyfrifon gorau ydynt. Hefyd, nid yw'r data yn ddigon

manwl gywir i'w dadansoddi ar gyfer ardaloedd llai nag Awdurdodau Unedol, felly ni fu'n bosibl darparu mapiau cyfranogiad ar gyfer ardaloedd bach.

## MYFYRWYR ADDYSG UWCH CYMREIG

17 Yn 2003/04 yr oedd 109,000 o fyfyrwyr o Gymru yn astudio ar gyfer cymwysterau AU yn SAUau a CABau yn y DU. Roedd tri chwarter y myfyrwyr hyn yn astudio yng Nghymru (gan gynnwys myfyrwyr y Brifysgol Agored). O blith yr holl fyfyrwyr o Gymru, yr oedd dros hanner yn fenywod (59 y cant). Roedd bron hanner yr holl fyfyrwyr yn israddedigion amser-llawn ac o blith y rhain roedd y mwyafrif o dan 25 oed. Fodd bynnag, o blith y 46 y cant o fyfyrwyr Cymreig a oedd yn astudio rhan-amser, roedd y mwyafrif yn 25 oed neu'n hŷn. Er bod nifer y myfyrwyr wedi codi o dros 103,000 i bron 109,000 yn ystod y cyfnod o dair blynedd, erys y darlun hwn yn weddol ddigyfnewid fel y dangosir yn y tabl isod. Rhoddir dadansoddiad o fyfyrwyr Cymreig yn ôl modd, rhyw, lefel ac oedran yn Nhablau 1 i 3, Atodiad A.

| Crynodeb o'r Ystadegau | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 |
|---|---|---|---|
| Nifer y myfyrwyr AU sy'n dod o Gymru | 103,314 | 107,194 | 108,695 |
| Cyfran sy'n astudio yng Nghymru | 74% | 75% | 75% |
| Cyfran sy'n fenywod | 57% | 58% | 59% |
| Cyfran sy'n astudio amser-llawn | 53% | 53% | 54% |
| Cyfran o'r rhain sydd o dan 25 oed | 81% | 81% | 81% |
| Cyfran o israddedigion amser-llawn | 47% | 47% | 48% |
| Cyfran o'r rhain sydd o dan 25 oed | 84% | 84% | 83% |
| Cyfran sy'n astudio rhan-amser | 47% | 47% | 46% |
| Cyfran o'r rhain sy'n 25 oed a throsodd | 84% | 82% | 82% |

## CYFRADDAU CYFRANOGIAD CENEDLAETHOL CYMREIG

18 Dangosir y cyfraddau cyfranogiad cenedlaethol a gyfrifwyd ar gyfer 2001/02 i 2003/04 yn Nhabl 5, Atodiad A. Yr oedd bron 4 y cant o boblogaeth Cymru yn astudio cyrsiau AU yn 2003//04 ac roedd ychydig yn fwy o fenywod nag o ddynion yn cymryd rhan mewn AU. Roedd y cyfraddau cyfranogiad ar eu huchaf ymhlith pobl rhwng 18 a 19 oed, yr oedd dros chwarter ohonynt yn astudio ar gyfer cymhwyster AU.

19 Cododd y canran o'r boblogaeth sy'n dilyn cyrsiau AU rhwng 2001/02 a 2003/04 wrth i nifer y myfyrwyr gynyddu. Nid oedd y cynnydd yn unffurf ar draws pob categori oedran na rhyw. At ei gilydd mae cyfranogiad dynion o Gymru wedi aros yr un fath tra bo cyfranogiad menywod wedi cynyddu. Roedd cynnydd amlwg mewn cyfranogiad yn y grŵp oedran 16 i 17 yn 2002/03; y rheswm am hyn oedd bod mwy o bobl wedi manteisio ar gynlluniau myfyrwyr cyswllt Prifysgol Morgannwg. Yn y categorïau oedran eraill ni fu fawr ddim newid yn y gyfradd cyfranogiad ar gyfer dynion, heblaw am ostyngiad yn y categori 18 a 19 oed. Bu cynnydd yng nghyfranogiad menywod ym mhob categori oedran heblaw am y categori 18 i 19 oed a arhosodd yr un fath yn ystod y cyfnod dan sylw. Dengys Tabl 5 sut mae'r cyfraddau cyfranogiad cenedlaethol wedi newid dros y tair blynedd yn ôl rhyw ac oedran.

## DEHONGLI'R MAPIAU

20 Mae'r mapiau yn Adran 1, ar gyfer pob Awdurdod Unedol, yn dangos data 2003/04 ac maent hwy wedi cael eu llunio ar yr un amrediadau sefydlog o CCS fel bod modd cymharu mapiau. Dengys ardaloedd melyn ranbarthau lle'r oedd cyfranogiad mewn AU yn cyd-fynd yn agos â'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd gan ardaloedd coch neu oren gyfraddau cyfranogiad a oedd cryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, tra oedd gan ardaloedd mewn arlliwiau o wyrdd gyfranogiad uchel neu uchel iawn.

21 Ar allwedd pob map, dangosir mewn cromfachau nifer yr Awdurdodau Unedol sy'n dod o fewn pob amrediad cyfranogiad. Rhoddir y CCSau gwirioneddol ar gyfer pob Awdurdod Unedol yn y tablau o dan y mapiau. Hefyd dangosir y CCSau ar gyfer pob Awdurdod Unedol, mewn trefn restrol, mewn siart er mwyn darparu dull cymharu arall.

22 Ni chyflwynir mapiau ar gyfer blynyddoedd cynharach yn yr adroddiad hwn; i weld CCSau 2001/02 a 2002/03, cyfeiriwch at Dablau 6a-6d yn Atodiad A.

## SYLWADAU AR Y MAPIAU

### Gorolwg

23 Mae'r mapiau yn yr adroddiad hwn yn dangos y CCSau ar gyfer 2003/04. Dangosant fod amrywiadau mawr mewn lefelau o gyfranogiad mewn AU rhwng Awdurdodau Unedol yn y flwyddyn hon. Darganfuwyd bod trigolion rhai Awdurdodau Unedol ddwy neu dair gwaith yn fwy tebygol o fod yn astudio cwrs AU na thrigolion Awdurdodau Unedol eraill. Gweler Atodiad A am wybodaeth am CCSau ar gyfer 2001/02 a 2002/03.

24 Yr Awdurdodau Unedol â'r CCSau isaf oedd Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen yn y de a Wrecsam a Sir y Fflint yn y gogledd. Darganfuwyd y CCSau uchaf yn Sir Gâr, Sir Fynwy a Cheredigion.

### Cyfranogiad yn ôl modd astudio

25 Cafodd y CCSau ar gyfer myfyrwyr AU o Gymru yn ôl modd astudio eu dadansoddi yn ôl astudiaeth amser-llawn (Map 2) ac astudiaeth ran-amser (Map 3). Yn y mapiau hyn, nid yw myfyrwyr ymchwil ôl-radd (YOR) wedi cael eu cynnwys oherwydd natur wahanol eu hastudiaeth. Yn achos myfyrwyr rhan-amser, roedd gan fwy o Awdurdodau Unedol gyfraddau cyfranogiad a oedd o dan y cyfartaledd cenedlaethol, ac roedd yr amrediad yn fwy: roedd CCS Ceredigion 70 y cant yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac roedd CCS Wrecsam 27 y cant yn is. Yn achos myfyrwyr amser-llawn, roedd gan Sir Fynwy y gyfradd cyfranogiad fwyaf, sef 44 y cant yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac roedd gan Flaenau Gwent y gyfradd isaf, sef 33 y cant yn is.

26 Os caiff myfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau credyd-isel eu hepgor o'r dadansoddiad o astudiaeth ran-amser (Map 4), gwelir bod yr amrywiad cenedlaethol mewn cyfraddau cyfranogiad rhan-amser ychydig yn llai: mae gan Geredigion CCS o 56 y cant uwchben y cyfartaledd cenedlaethol ac mae gan Wrecsam CCS o 19 y cant yn is. Mae myfyriwr ar gwrs credyd-isel yn cael ei ddiffinio fel myfyriwr sy'n astudio am lai na 10 y cant o gyfwerth amser-llawn (CALl). Yr Awdurdodau Unedol â'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar gyrsiau credyd-isel oedd Gwynedd gyda 23 y cant o fyfyrwyr rhan-amser ar gyrsiau o'r fath, Ynys Môn gyda 21 y cant a Ceredigion gyda 21 y cant. (Gweler Tabl 7b, Atodiad A.)

### Cyfranogiad israddedigion amser-llawn yn ôl oedran

27 Cafodd CCSau ar gyfer israddedigion amser-llawn eu dadansoddi yn ôl oedran (Mapiau 5 a 6). Roedd dros 80 y cant o israddedigion amser-llawn o dan 25 oed ac roedd y lefelau cyfranogiad ar gyfer y grŵp oedran hwn yn amrywio'n eang ar draws Cymru. Roedd gan Geredigion gyfradd cyfranogiad isel iawn ar gyfer y grŵp hwn o fyfyrwyr. Efallai mai cyfyngiadau'r dull a ddefnyddir i bennu poblogaeth cyfrifiad gyda myfyrwyr wedi'u rhifo yn eu cyfeiriad cartref sy'n gyfrifol am hyn i raddau. Rhoddir manylion pellach yn Atodiad B. Roedd y cyfraddau cyfranogiad ar gyfer israddedigion dros 25 oed hefyd yn amrywio'n fawr ar hyd a lled Cymru, ond roedd y dosbarthiad yn dra gwahanol i hwnnw ar gyfer israddedigion ifanc, gan ddangos cyfraddau cyfranogiad uchel iawn yn Awdurdodau Unedol gogledd Cymru.

### Cyfranogiad yn ôl rhyw

28 Roedd y cyfraddau cyfranogiad cenedlaethol ar gyfer myfyrwragedd ychydig yn uwch na'r rheiny ar gyfer myfyrwyr gwryw. Serch hynny, nid oedd llawer o wahaniaethau rhanbarthol yn y cyfraddau hyn, a heblaw am Bowys lle'r oedd cyfranogiad gan ddynion 10 y cant yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfranogiad gan fenywod 14 y cant yn uwch, roedd y dosbarthiad yn debyg ar draws Cymru. Mae'r tebygrwydd rhwng Mapiau 7 ac 8 yn dangos hyn.

## ETHNIGRWYDD

29 Yn y flwyddyn academaidd 2003/04 roedd 4 y cant (4,050) o fyfyrwyr o Gymru yn dod o leiafrifoedd ethnig. Roedd nifer y myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig a oedd yn byw ym mhob Awdurdod Unedol yn amrywio o 36 ym Môn i 1,578 yng Nghaerdydd. Oherwydd y niferoedd bach dan sylw a'r nifer sylweddol o bobl o leiafrifoedd ethnig sy'n byw yn ardaloedd trefol Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd, ni fu'n bosibl darparu map ystyrlon o gyfraddau cyfranogiad yn ôl ethnigrwydd. Serch hynny, gellir nodi bod cyfrifiad 2001 yn dangos mai 2.1 y cant yn unig o bobl Cymru a oedd yn 16 oed neu drosodd yn dod o leiafrifoedd ethnig. Felly, at ei gilydd, mae gan leiafrifoedd ethnig gynrychiolaeth dda mewn AU. Ond mae'r darlun hwn yn annhebygol o fod yn gyson wir ar draws pob grŵp ethnig a phob rhan o Gymru.

## PROFFIL O'R AWDURDODAU UNEDOL

30 Mae'r siartiau yn Adran 2 yn cymharu'r cyfraddau cyfranogiad safonol a gyfrifwyd ar gyfer pob grŵp oedran, modd astudio a rhyw ym mhob Awdurdod Unedol. Er bod y CCSau yn debyg ar draws grwpiau, maent hwy'n amrywio mewn rhai Awdurdodau Unedol.

31 Er enghraifft, ym Mlaenau Gwent mae cyfranogiad yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob grŵp (mae pob un yn 20 y cant yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol) a thynnir sylw ato mewn coch ar bob map perthnasol. Yn Sir Gâr, heblaw am israddedigion amser-llawn 25 oed neu drosodd, mae cyfranogiad cryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob grŵp (mae pob un dros 20 y cant yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol) a thynnir sylw at hyn mewn gwyrdd tywyll ar bob map perthnasol. Dylid nodi bod cyfranogiad ymhlith israddedigion amser-llawn 25 oed neu drosodd yn Sir Gâr yn parhau'n uwch na'r cyfartaledd.

32 Ym Merthyr Tudful, er bod cyfranogiad yn y grwpiau yn amrywio o dan ac uwchben y cyfartaledd cenedlaethol, mae cyfranogiad yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer pob grŵp heblaw am ran-amser, gan eu bod i gyd o fewn +/-5 y cant o'r cyfartaledd cenedlaethol (dangosir hyn mewn melyn ar y mapiau perthnasol). Mae cyfranogiad myfyrwyr rhan-amser o Ferthyr Tudful yn 13 y cant yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn Sir Fynwy gwelir amrywiad mawr mewn cyfranogiad rhwng y gwahanol grwpiau. Mae cyfranogiad myfyrwyr rhan-amser yn agos at y cyfartaledd cenedlaethol; mae cyfranogiad israddedigion amser-llawn o dan 25 oed cryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (57 y cant) ond mae cyfranogiad israddedigion amser-llawn 25 oed a throsodd yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol (21 y cant yn is).

33 Ymddengys fod cyfranogiad israddedigion amser-llawn o dan 25 oed o Geredigion yn is o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol (25 y cant yn is). Fel y nodwyd ym mharagraff 27, mae'n bosibl nad yw hyn yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa oherwydd cyfyngiadau'r data sydd ar gael o'r cyfrifiad, a thrafodir hyn yn Atodiad B. Sut bynnag, gellir gweld bod cyfranogiad gan fyfyrwyr rhan-amser yng Ngheredigion cryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd (70 y cant yn uwch). Os nad yw digon o fyfyrwyr a rifwyd yn eu cyfeiriadau yn ystod y tymor wedi cael eu tynnu o'r boblogaeth fel y nodir yn Atodiad B, mae hyn yn awgrymu y byddai'r ffigur rhan-amser ar gyfer Ceredigion yn uwch byth pe bai data manwl gywir am y boblogaeth ar gael.

## TUEDDIADAU MEWN CYFRADDAU CYFRANOGIAD

34 Mae Tablau 6a i 6d yn cymharu CCSau myfyrwyr ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2001/02, 2002/03 a 2003/04. Gan fod y tair set o ffigurau'n CCSau sydd wedi cael eu normaleiddio i'r cyfraddau cyfartaledd cenedlaethol blynyddol wedi'u torri i lawr yn ôl rhyw ac oedran, nid yw'n briodol i gymharu'r CCSau o wahanol flynyddoedd yn uniongyrchol. Fodd bynnag, gellir defnyddio'r gwyriad safonol (a ddangosir yn y tablau) i fesur amrywiad cyfraddau cyfranogiad ar draws y wlad: po fwyaf yw'r gwyriad safonol, mwyaf i gyd yw'r amrywiad mewn cyfraddau.

35 Roedd yr amrywiad cenedlaethol mewn cyfraddau cyfranogiad myfyrwyr yn ôl trigfan yn 2003/04 yn is nag yn 2001/02. Hynny yw, er bod ardaloedd o gyfranogiad isel iawn o hyd ar draws Cymru yn 2003/04, mae'r bwlch rhwng lefelau cyfranogiad mewn gwahanol ardaloedd yn llai yn 2003/04 nag yn 2001/02. Mae'r duedd hon yn wir ar gyfer myfyrwyr amser-llawn a rhan-amser (Tablau 6a a 6b). Gellir rhoi enghraifft o hyn drwy ystyried y niferoedd o fyfyrwyr yn Nhabl 7a. Rhwng 2001/02 a 2003/04 gwelwyd cynnydd o 7% yn nifer y myfyrwyr o Flaenau Gwent, Caerffili, Wrecsam a Thorfaen, ardaloedd lle mae cyfranogiad yn isel. Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd cynnydd o 2% yn nifer y myfyrwyr o Sir Gâr, Ceredigion, Sir Fynwy a Bro Morgannwg, ardaloedd lle mae cyfranogiad yn uchel. Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng cyfraddau twf wedi peri i'r bwlch rhwng ardaloedd o gyfranogiad uchel ac isel fynd yn llai.

36 Bydd dadansoddiadau yn y dyfodol yn parhau i fonitro'r lleihad ymddangosol hwn yn y bwlch rhwng ardaloedd o gyfranogiad uchel ac isel.

# ADRAN 1

## Map 1: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Myfyriwr AU Cymreig ym 2003/04




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 11 | Castell-nedd Port Talbot | -7 |
| Gwynedd | -1 | Pen-y-bont | -2 |
| Conwy | 13 | Bro Morgannwg | 14 |
| Sir Ddinbych | -1 | Rhondda Cynon Taf | -7 |
| Sir y Fflint | -14 | Merthyr Tudful | 0 |
| Wrecsam | -17 | Caerffili | -16 |
| Powys | 4 | Blaenau Gwent | -30 |
| Ceredigion | 19 | Torfaen | -17 |
| Sir Benfro | 8 | Sir Fynwy | 22 |
| Sir Gaerfyrddin | 24 | Casnewydd | -9 |
| Abertawe | 9 | Caerdydd | 1 |

## Siart 1: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Myfyriwr AU Cymreig ym 2003/04




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 11 | Castell-nedd Port Talbot | -7 |
| Gwynedd | -1 | Pen-y-bont | -2 |
| Conwy | 13 | Bro Morgannwg | 14 |
| Sir Ddinbych | -1 | Rhondda Cynon Taf | -7 |
| Sir y Fflint | -14 | Merthyr Tudful | 0 |
| Wrecsam | -17 | Caerffili | -16 |
| Powys | 4 | Blaenau Gwent | -30 |
| Ceredigion | 19 | Torfaen | -17 |
| Sir Benfro | 8 | Sir Fynwy | 22 |
| Sir Gaerfyrddin | 24 | Casnewydd | -9 |
| Abertawe | 9 | Caerdydd | 1 |

## Map 2: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Myfyriwr Amser-llawn ym 2003/04 (heb gynnwys myfyrwyr YOR)




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 19 | Castell-nedd Port Talbot | -3 |
| Gwynedd | 0 | Pen-y-bont | 6 |
| Conwy | 19 | Bro Morgannwg | 23 |
| Sir Ddinbych | 7 | Rhondda Cynon Taf | -8 |
| Sir y Fflint | -4 | Merthyr Tudful | -6 |
| Wrecsam | -8 | Caerffili | -17 |
| Powys | 16 | Blaenau Gwent | -33 |
| Ceredigion | -16 | Torfaen | -14 |
| Sir Benfro | 20 | Sir Fynwy | 44 |
| Sir Gaerfyrddin | 23 | Casnewydd | -2 |
| Abertawe | 3 | Caerdydd | -15 |

## Siart 2: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Myfyriwr Amser-llawn ym 2003/04 (heb gynnwys myfyrwyr YOR)




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 19 | Castell-nedd Port Talbot | -3 |
| Gwynedd | 0 | Pen-y-bont | 6 |
| Conwy | 19 | Bro Morgannwg | 23 |
| Sir Ddinbych | 7 | Rhondda Cynon Taf | -8 |
| Sir y Fflint | -4 | Merthyr Tudful | -6 |
| Wrecsam | -8 | Caerffili | -17 |
| Powys | 16 | Blaenau Gwent | -33 |
| Ceredigion | -16 | Torfaen | -14 |
| Sir  Benfro | 20 | Sir Fynwy | 44 |
| Sir Gaerfyrddin | 23 | Casnewydd | -2 |
| Abertawe | 3 | Caerdydd | -15 |

**Map 3: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Myfyriwr Rhan-amser ym 2003/04 (heb gynnwys myfyrwyr YOR)**




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 0 | Castell-nedd Port Talbot | -10 |
| Gwynedd | -4 | Pen-y-bont | -8 |
| Conwy | 8 | Bro Morgannwg | 4 |
| Sir Ddinbych | -8 | Rhondda Cynon Taf | -5 |
| Sir y Fflint | -23 | Merthyr Tudful | 10 |
| Wrecsam | -27 | Caerffili | -14 |
| Powys | -8 | Blaenau Gwent | -26 |
| Ceredigion | 70 | Torfaen | -19 |
| Sir Benfro | -3 | Sir Fynwy | -2 |
| Sir Gaerfyrddin | 28 | Casnewydd | -16 |
| Abertawe | 14 | Caerdydd | 20 |

## Siart 3: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Myfyriwr Rhan-amser ym 2003/04 (heb gynnwys myfyrwyr YOR)




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 0 | Castell-nedd Port Talbot | -10 |
| Gwynedd | -4 | Pen-y-bont | -8 |
| Conwy | 8 | Bro Morgannwg | 4 |
| Sir Ddinbych | -8 | Rhondda Cynon Taf | -5 |
| Sir y Fflint | -23 | Merthyr Tudful | 10 |
| Wrecsam | -27 | Caerffili | -14 |
| Powys | -8 | Blaenau Gwent | -26 |
| Ceredigion | 70 | Torfaen | -19 |
| Sir  Benfro | -3 | Sir Fynwy | -2 |
| Sir Gaerfyrddin | 28 | Casnewydd | -16 |
| Abertawe | 14 | Caerdydd | 20 |

**Map 4: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Myfyriwr Rhan-amser ym 2003/04 (heb gynnwys myfyrwyr YOR a chredyd isel)**




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | -7 | Castell-nedd Port Talbot | -6 |
| Gwynedd | -13 | Pen-y-bont | -4 |
| Conwy | 12 | Bro Morgannwg | 4 |
| Sir Ddinbych | -5 | Rhondda Cynon Taf | -7 |
| Sir y Fflint | -16 | Merthyr Tudful | 4 |
| Wrecsam | -19 | Caerffili | -14 |
| Powys | -8 | Blaenau Gwent | -22 |
| Ceredigion | 56 | Torfaen | -14 |
| Sir  Benfro | 1 | Sir Fynwy | 2 |
| Sir Gaerfyrddin | 22 | Casnewydd | -14 |
| Abertawe | 14 | Caerdydd | 15 |

## Siart 4: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Myfyriwr Rhan-amser ym 2003/04 (heb gynnwys myfyrwyr YOR a chredyd isel)




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | -7 | Castell-nedd Port Talbot | -6 |
| Gwynedd | -13 | Pen-y-bont | -4 |
| Conwy | 12 | Bro Morgannwg | 4 |
| Sir Ddinbych | -5 | Rhondda Cynon Taf | -7 |
| Sir y Fflint | -16 | Merthyr Tudful | 4 |
| Wrecsam | -19 | Caerffili | -14 |
| Powys | -8 | Blaenau Gwent | -22 |
| Ceredigion | 56 | Torfaen | -14 |
| Sir Benfro | 1 | Sir Fynwy | 2 |
| Sir Gaerfyrddin | 22 | Casnewydd | -14 |
| Abertawe | 14 | Caerdydd | 15 |

## Map 5: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwyr Amser-llawn ym 2003/04 (israddedigion sydd o dan 25 mlwydd oed)




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 17 | Castell-nedd Port Talbot | -3 |
| Gwynedd | -9 | Pen-y-bont | 10 |
| Conwy | 17 | Bro Morgannwg | 29 |
| Sir Ddinbych | 7 | Rhondda Cynon Taf | -7 |
| Sir y Fflint | 0 | Merthyr Tudful | -5 |
| Wrecsam | -12 | Caerffili | -13 |
| Powys | 24 | Blaenau Gwent | -34 |
| Ceredigion | -26 | Torfaen | -11 |
| Sir Benfro | 29 | Sir Fynwy | 57 |
| Sir Gaerfyrddin | 25 | Casnewydd | 0 |
| Abertawe | 1 | Caerdydd | -22 |

## Siart 5: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwyr Amser-llawn ym 2003/04 (israddedigion sydd o dan 25 mlwydd oed)




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 17 | Castell-nedd Port Talbot | -3 |
| Gwynedd | -9 | Pen-y-bont | 10 |
| Conwy | 17 | Bro Morgannwg | 29 |
| Sir Ddinbych | 7 | Rhondda Cynon Taf | -7 |
| Sir y Fflint | 0 | Merthyr Tudful | -5 |
| Wrecsam | -12 | Caerffili | -13 |
| Powys | 24 | Blaenau Gwent | -34 |
| Ceredigion | -26 | Torfaen | -11 |
| Sir  Benfro | 29 | Sir Fynwy | 57 |
| Sir Gaerfyrddin | 25 | Casnewydd | 0 |
| Abertawe | 1 | Caerdydd | -22 |

## Map 6: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwyr Amser-llawn ym 2003/04 (Israddedigion sy'n 25 oed neu drosodd)




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 21 | Castell-nedd Port Talbot | 2 |
| Gwynedd | 13 | Pen-y-bont | -2 |
| Conwy | 32 | Bro Morgannwg | -8 |
| Sir Ddinbych | 23 | Rhondda Cynon Taf | 1 |
| Sir y Fflint | -8 | Merthyr Tudful | -4 |
| Wrecsam | 23 | Caerffili | -32 |
| Powys | -14 | Blaenau Gwent | -21 |
| Ceredigion | 38 | Torfaen | -19 |
| Sir Benfro | -6 | Sir Fynwy | -21 |
| Sir Gaerfyrddin | 13 | Casnewydd | -11 |
| Abertawe | 9 | Caerdydd | -4 |

## Siart 6: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwyr Amser-llawn ym 2003/04 (Israddedigion sy'n 25 oed neu drosodd)




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 21 | Castell-nedd Port Talbot | 2 |
| Gwynedd | 13 | Pen-y-bont | -2 |
| Conwy | 32 | Bro Morgannwg | -8 |
| Sir Ddinbych | 23 | Rhondda Cynon Taf | 1 |
| Sir y Fflint | -8 | Merthyr Tudful | -4 |
| Wrecsam | 23 | Caerffili | -32 |
| Powys | -14 | Blaenau Gwent | -21 |
| Ceredigion | 38 | Torfaen | -19 |
| Sir Benfro | -6 | Sir Fynwy | -21 |
| Sir Gaerfyrddin | 13 | Casnewydd | -11 |
| Abertawe | 9 | Caerdydd | -4 |

## Map 7: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwyr (Gwryw) ym 2003/04




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 2 | Castell-nedd Port Talbot | -4 |
| Gwynedd | -4 | Pen-y-bont | -3 |
| Conwy | 7 | Bro Morgannwg | 18 |
| Sir Ddinbych | -8 | Rhondda Cynon Taf | -7 |
| Sir y Fflint | -16 | Merthyr Tudful | 2 |
| Wrecsam | -22 | Caerffili | -16 |
| Powys | -10 | Blaenau Gwent | -29 |
| Ceredigion | 10 | Torfaen | -14 |
| Sir  Benfro | 6 | Sir Fynwy | 24 |
| Sir Gaerfyrddin | 21 | Casnewydd | 1 |
| Abertawe | 7 | Caerdydd | 12 |

## Siart 7: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwyr (Gwryw) ym 2003/04




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 2 | Castell-nedd Port Talbot | -4 |
| Gwynedd | -4 | Pen-y-bont | -3 |
| Conwy | 7 | Bro Morgannwg | 18 |
| Sir Ddinbych | -8 | Rhondda Cynon Taf | -7 |
| Sir y Fflint | -16 | Merthyr Tudful | 2 |
| Wrecsam | -22 | Caerffili | -16 |
| Powys | -10 | Blaenau Gwent | -29 |
| Ceredigion | 10 | Torfaen | -14 |
| Sir Benfro | 6 | Sir Fynwy | 24 |
| Sir Gaerfyrddin | 21 | Casnewydd | 1 |
| Abertawe | 7 | Caerdydd | 12 |

## Map 8: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwyr (Benyw) ym 2003/04




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 17 | Castell-nedd Port Talbot | -9 |
| Gwynedd | 2 | Pen-y-bont | 0 |
| Conwy | 17 | Bro Morgannwg | 11 |
| Sir Ddinbych | 4 | Rhondda Cynon Taf | -8 |
| Sir y Fflint | -13 | Merthyr Tudful | -1 |
| Wrecsam | -14 | Caerffili | -17 |
| Powys | 14 | Blaenau Gwent | -31 |
| Ceredigion | 26 | Torfaen | -19 |
| Sir Benfro | 9 | Sir Fynwy | 21 |
| Sir Gaerfyrddin | 27 | Casnewydd | -16 |
| Abertawe | 10 | Caerdydd | -6 |

## Siart 8: Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwyr (Benyw) ym 2003/04




| Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol | Awdurdod Unedol | Cyfradd Cyfranogiad Safonol |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 17 | Castell-nedd Port Talbot | -9 |
| Gwynedd | 2 | Pen-y-bont | 0 |
| Conwy | 17 | Bro Morgannwg | 11 |
| Sir Ddinbych | 4 | Rhondda Cynon Taf | -8 |
| Sir y Fflint | -13 | Merthyr Tudful | -1 |
| Wrecsam | -14 | Caerffili | -17 |
| Powys | 14 | Blaenau Gwent | -31 |
| Ceredigion | 26 | Torfaen | -19 |
| Sir Benfro | 9 | Sir Fynwy | 21 |
| Sir Gaerfyrddin | 27 | Casnewydd | -16 |
| Abertawe | 10 | Caerdydd | -6 |

# ADRAN 2

# Cymhariaeth mewn Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Awdurdod Unedol yn ôl oed, modd astudio a rhyw yn 2003/04













| Awdurdod Undedol | Holl fyfyrwyr Cymreig | Amser-llawn (heb gynnwys myfyrwyr YOR) | Rhan-amser (heb gynnwys myfyrwyr YOR) | Rhan-amser (heb gynnwys myfyrwyr YOR a chredyd isel) | Israddedigion Amser-llawn (o dan 25 oed) | Israddedigion Amser-llawn (25 oed neu drosodd ) | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 11 | 19 | 0 | -7 | 17 | 21 | 2 | 17 |
| Gwynedd | -1 | 0 | -4 | -13 | -9 | 13 | -4 | 2 |
| Conwy | 13 | 19 | 8 | 12 | 17 | 32 | 7 | 17 |
| Sir Ddinbych | -1 | 7 | -8 | -5 | 7 | 23 | -8 | 4 |

# Cymhariaeth mewn Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Awdurdod Unedol yn ôl oed, modd astudio a rhyw yn 2003/04

**Sir y Fflint**




**Wrecsam**




**Powys**




**Ceredigion**




| Awdurdod Undedol | Holl fyfyrwyr Cymreig | Amser-llawn (heb gynnwys myfyrwyr YOR) | Rhan-amser (heb gynnwys myfyrwyr YOR) | Rhan-amser (heb gynnwys myfyrwyr YOR a chredyd isel) | Israddedigion Amser-llawn (o dan 25 oed) | Israddedigion Amser-llawn (25 oed neu drosodd ) | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir y Fflint | -14 | -4 | -23 | -16 | 0 | -8 | -16 | -13 |
| Wrecsam | -17 | -8 | -27 | -19 | -12 | 23 | -22 | -14 |
| Powys | 4 | 16 | -8 | -8 | 24 | -14 | -10 | 14 |
| Ceredigion | 19 | -16 | 70 | 56 | -26 | 38 | 10 | 26 |

# Cymhariaeth mewn Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Awdurdod Unedol yn ôl oed, modd astudio a rhyw yn 2003/04

**Sir Benfro**




**Sir Gaerfyrddin**




**Abertawe**




**Castell-nedd Port Talbot**




| Awdurdod Undedol | Holl fyfyrwyr Cymreig | Amser-llawn (heb gynnwys myfyrwyr YOR) | Rhan-amser (heb gynnwys myfyrwyr YOR) | Rhan-amser (heb gynnwys myfyrwyr YOR a chredyd isel) | Israddedigion Amser-llawn (o dan 25 oed) | Israddedigion Amser-llawn (25 oed neu drosodd ) | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Benfro | 8 | 20 | -3 | 1 | 29 | -6 | 6 | 9 |
| Sir Gaerfyrddin | 24 | 23 | 28 | 22 | 25 | 13 | 21 | 27 |
| Abertawe | 9 | 3 | 14 | 14 | 1 | 9 | 7 | 10 |
| Castell-nedd Port Talbot | -7 | -3 | -10 | -6 | -3 | 2 | -4 | -9 |

# Cymhariaeth mewn Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Awdurdod Unedol yn ôl oed, modd astudio a rhyw yn 2003/04













| Awdurdod Unedol | Holl fyfyrwyr Cymreig | Amser-llawn (heb gynnwys myfyrwyr YOR) | Rhan-amser (heb gynnwys myfyrwyr YOR) | Rhan-amser (heb gynnwys myfyrwyr YOR a chredyd isel) | Israddedigion Amser-llawn (o dan 25 oed) | Israddedigion Amser-llawn (25 oed neu drosodd ) | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pen-y-bont | -2 | 6 | -8 | -4 | 10 | -2 | -3 | 0 |
| Bro Morgannwg | 14 | 23 | 4 | 4 | 29 | -8 | 18 | 11 |
| Rhondda Cynon Taf | -7 | -8 | -5 | -7 | -7 | 1 | -7 | -8 |
| Merthyr Tudful | 0 | -6 | 10 | 4 | -5 | -4 | 2 | -1 |

# Cymhariaeth mewn Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Awdurdod Unedol yn ôl oed, modd astudio a rhyw yn 2003/04













| Awdurdod Unedol | Holl fyfyrwyr Cymreig | Amser-llawn (heb gynnwys myfyrwyr YOR) | Rhan-amser (heb gynnwys myfyrwyr YOR) | Rhan-amser (heb gynnwys myfyrwyr YOR a chredyd isel) | Israddedigion Amser-llawn (o dan 25 oed) | Israddedigion Amser-llawn (25 oed neu drosodd ) | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerffili | -16 | -17 | -14 | -14 | -13 | -32 | -16 | -17 |
| Blaenau Gwent | -30 | -33 | -26 | -22 | -34 | -21 | -29 | -31 |
| Torfaen | -17 | -14 | -19 | -14 | -11 | -19 | -14 | -19 |
| Sir Fynwy | 22 | 44 | -2 | 2 | 57 | -21 | 24 | 21 |

## Cymhariaeth mewn Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob Awdurdod Unedol yn ôl oed, modd astudio a rhyw yn 2003/04







| Awdurdod Unedol | Holl fyfyrwyr Cymreig | Amser-llawn (heb gynnwys myfyrwyr YOR) | Rhan-anser (heb gynnwys myfyrwyr YOR) | Rhan-anser (heb gynnwys myfyrwyr YOR a chredyd isel) | Israddedigion Amser-llawn (o dan 25 oed) | Israddedigion Amser-llawn (25 oed neu drosodd ) | Gwrywod | Benywod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Casnewydd | -9 | -2 | -16 | -14 | 0 | -11 | 1 | -16 |
| Caerdydd | 1 | -15 | 20 | 15 | -22 | -4 | 12 | -6 |

# ATODIADAU

## ATODIAD A: TABLAU

### Tabl 1 : Myfyrwyr Cymreig yn ôl Modd a Lefel Astudio 2003/04

| SEFYDLIADAU | Amser-Llawn | | | | Rhan-Amser | | | | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | IR (gradd) | IR (arall) | OR (addysgir) | OR (ymchwil) | IR (gradd) | IR (arall) | OR (addysgir) | OR (ymchwil) | |
| SAUau Cymreig | 26,283 | 5,268 | 3,282 | 949 | 4,215 | 23,703 | 6,236 | 708 | **70,644** |
| SAUau y DU (nid-Cymreig) | 18,309 | 977 | 1,440 | 637 | 820 | 1,966 | 2,337 | 296 | **26,782** |
| Prifysgol Agored | 0 | 0 | 0 | 1 | 3,187 | 2,742 | 619 | 26 | **6,575** |
| CABau Cymreig | 118 | 686 | 2 | 0 | 95 | 2,897 | 41 | 0 | **3,839** |
| CABau y DU (nid Cymreig) | 92 | 147 | 0 | 0 | 19 | 565 | 32 | 0 | **855** |
| **CYFANSWM** | **44,802** | **7,078** | **4,724** | **1,587** | **8,336** | **31,873** | **9,265** | **1,030** | **108,695** |

Nodyn :
1) IR = Israddedigion, ÔR = ôlraddedigion
2) DU = Y Deyrnas Unedig, SAUau = Sefydliadau Addysg Uwch, CABau = Colegau Addysg Bellach

### Tabl 2 : Myfyrwyr Cymreig yn ôl Rhyw, Modd Astudio ac Grŵp Oedran 2003/04

| SEFYDLIADAU | Gwrywod | | | | Benywod | | | | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Amser-Llawn | | Rhan-Amser | | Amser-Llawn | | Rhan-amser | | |
| | O dan 25 | 25 a throsodd | O dan 25 | 25 a throsodd | O dan 25 | 25 a throsodd | O dan 25 | 25 a throsodd | |
| SAUau Cymreig | 11,457 | 3,193 | 3,097 | 10,327 | 15,146 | 5,986 | 3,697 | 17,741 | **70,644** |
| SAUau y DU (nid-Cymreig) | 9,075 | 811 | 379 | 1,938 | 10,591 | 886 | 435 | 2,667 | **26,782** |
| Prifysgol Agored | 0 | 1 | 230 | 2,557 | 0 | 0 | 522 | 3,265 | **6,575** |
| CABau Cymreig | 263 | 112 | 374 | 846 | 194 | 237 | 336 | 1,477 | **3,839** |
| CABau y DU (nid Cymreig) | 114 | 30 | 73 | 208 | 86 | 9 | 66 | 269 | **855** |
| **CYFANSWM** | **20,909** | **4,147** | **4,153** | **15,876** | **26,017** | **7,118** | **5,056** | **25,419** | **108,695** |

Nodyn :
1) DU = Y Deyrnas Unedig, SAUau = Sefydliadau Addysg Uwch, CABau = Sefydliadau Addysg Bellach
2) Oedran= oedran y myfyriwr ar 31ain Awst 2003

## Tabl 3 : Myfyrwyr Cymreig yn ôl Cyfwerthoedd ag Amser Llawn 2003/04

| SEFYDLIADAU | Llai na 10% o CALI | Mwy na 10% o CALI | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| SAUau Cymreig | 6,338 | 64,306 | **70,644** |
| SAUau y DU (nid Cymreig) | 298 | 26,484 | **26,782** |
| Prifysgol Agored | 634 | 5,941 | **6,575** |
| CABau Cymreig | * | 3,839 | **3,839** |
| CABau Y DU (nid Cymreig) | * | 855 | **855** |
| **CYFANSWM** | **7,270** | **101,425** | **108,695** |

Nodyn :
1 DU = Y Deyrnas Unedig, SAUau = Sefydliadau Addysg Uwch, CABau = Sefydliadau Addysg Bellach
2) CALI = Cyfwerth ag Amser llawn
* CALI ddim ar gael ar gyfer data CAB

## Tabl 4 : Myfyrwyr Cymreig yn ôl Côd post 2003/04

| SEFYDLIADAU | Myfyrwyr â Chodau Post Hysbys | Myfyrwyr â Chodau Post Anhysbys | Canran â Chodau Post Anhysbys | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| SAUau Cymreig | 67,925 | 2,719 | 4% | **70,644** |
| SAUau y DU (nid Cymreig) | 26,393 | 389 | 1% | **26,782** |
| Prifysgol Agored | 6,534 | 41 | 1% | **6,575** |
| CABau Cymreig | 3,600 | 239 | 6% | **3,839** |
| CABau y DU (nid Cymreig) | 852 | 3 | 0% | **855** |
| **CYFANSWM** | **105,304** | **3,391** | **3%** | **108,695** |

Nodyn :
1) Codau post annilys a ddychwelir gan sefydliadau yw codau post anhysbys

## Tabl 5 : Cyfraddau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer pob Myfyriwr Cymreig 2001/02 – 2003/04

| Oedran | Canran o'r Boblogaeth mewn Addysg Uwch | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001/02 | | 2002/03 | | 2003/04 | |
| | Gwrywod | Benywod | Gwrywod | Benywod | Gwrywod | Benywod |
| 16 i 17 mlwydd oed | 0.9 | 1.2 | 1.9 | 2.7 | 2.2 | 3.3 |
| 18 i 19 mlwydd oed | 24.9 | 30.1 | 23.6 | 29.7 | 23.0 | 30.0 |
| 20 i 24 mlwydd oed | 16.8 | 18.8 | 16.2 | 19.2 | 15.9 | 19.3 |
| 25 i 29 mlwydd oed | 5.6 | 7.1 | 5.6 | 7.6 | 5.7 | 7.9 |
| 30 i 39 mlwydd oed | 3.9 | 5.1 | 3.8 | 5.4 | 3.6 | 5.6 |
| 40 i 49 mlwydd oed | 2.5 | 3.9 | 2.5 | 4.2 | 2.4 | 4.2 |
| 50 i 59 mlwydd oed | 1.2 | 1.7 | 1.2 | 1.8 | 1.2 | 1.9 |
| **Pob oed** | **3.2** | **3.9** | **3.2** | **4.1** | **3.2** | **4.2** |

## Tabl 6a : Tueddiadau mewn Cyfraddau Cyfranogiad Safonol yn ôl Modd Mynychu 2001/02 – 2003/04

| Awdurdod Unedol | Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer pob myfyriwr Cymreig | | | Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwyr Amser-llawn* | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 |
| Ynys Môn | 9 | 18 | 11 | 23 | 24 | 19 |
| Gwynedd | 5 | 7 | -1 | 7 | 9 | 0 |
| Conwy | 17 | 12 | 13 | 30 | 25 | 19 |
| Sir Ddinbych | -2 | -4 | -1 | 5 | 6 | 7 |
| Sir y Fflint | -12 | -15 | -14 | -6 | -5 | -4 |
| Wrecsam | -18 | -18 | -17 | -11 | -8 | -8 |
| Powys | 4 | 0 | 4 | 18 | 15 | 16 |
| Ceredigion | 30 | 29 | 19 | -14 | -14 | -16 |
| Sir Benfro | 12 | 7 | 8 | 21 | 17 | 20 |
| Sir Gaerfyrddin | 27 | 28 | 24 | 22 | 23 | 23 |
| Abertawe | 5 | 5 | 9 | 2 | 3 | 3 |
| Castell-nedd Port Talbot | -14 | -13 | -7 | -10 | -7 | -3 |
| Pen-y-bont | -1 | -3 | -2 | 3 | 3 | 6 |
| Bro Morgannwg | 16 | 15 | 14 | 22 | 21 | 23 |
| Rhondda Cynon Taf | -13 | -10 | -7 | -13 | -11 | -8 |
| Merthyr Tudful | 4 | 9 | 0 | -13 | -3 | -6 |
| Caerffili | -21 | -16 | -16 | -18 | -16 | -17 |
| Blaenau Gwent | -32 | -30 | -30 | -35 | -37 | -33 |
| Torfaen | -16 | -13 | -17 | -15 | -11 | -14 |
| Monmouthshire | 30 | 24 | 22 | 56 | 50 | 44 |
| Casnewydd | -6 | -9 | -9 | 1 | -4 | -2 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 1 | -14 | -16 | -15 |
| **Gwyriad Safonol** | **16.8** | **15.9** | **14.1** | **20.7** | **19.0** | **17.7** |

Nodyn :
* yn eithrio myfyrwyr YOR

## Tabl 6b : Tueddiadau mewn Cyfraddau Cyfranogiad Safonol: Myfyrwyr Rhan-amser 2001/02 – 2003/04

| Awdurdod Unedol | Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwyr Rhan-amser* | | | Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwyr Rhan-amser (heb gynnwys myfyrwyr credyd isel) * | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 |
| Ynys Môn | -9 | 10 | 0 | -7 | 17 | -7 |
| Gwynedd | 0 | 3 | -4 | -6 | -5 | -13 |
| Conwy | 6 | 1 | 8 | 11 | 10 | 12 |
| Sir Ddinbych | -8 | -13 | -8 | -7 | -10 | -5 |
| Sir y Fflint | -18 | -25 | -23 | -16 | -21 | -16 |
| Wrecsam | -26 | -28 | -27 | -23 | -23 | -19 |
| Powys | -10 | -13 | -8 | -10 | -12 | -8 |
| Ceredigion | 91 | 87 | 70 | 53 | 65 | 56 |
| Sir Benfro | 6 | -1 | -3 | 6 | 1 | 1 |
| Sir Gaerfyrddin | 35 | 34 | 28 | 22 | 25 | 22 |
| Abertawe | 7 | 7 | 14 | 6 | 6 | 14 |
| Castell-nedd Port Talbot | -17 | -18 | -10 | -16 | -15 | -6 |
| Pen-y-bont | -4 | -8 | -8 | 3 | 0 | -4 |
| Bro Morgannwg | 10 | 8 | 4 | 11 | 7 | 4 |
| Rhondda Cynon Taf | -11 | -8 | -5 | -5 | -8 | -7 |
| Merthyr Tudful | 25 | 25 | 10 | 34 | 6 | 4 |
| Caerffili | -23 | -15 | -14 | -18 | -14 | -14 |
| Blaenau Gwent | -27 | -21 | -26 | -24 | -19 | -22 |
| Torfaen | -16 | -13 | -19 | -12 | -10 | -14 |
| Sir Fynwy | 4 | -1 | -2 | 7 | 3 | 2 |
| Casnewydd | -12 | -14 | -16 | -10 | -11 | -14 |
| Caerdydd | 14 | 18 | 20 | 12 | 15 | 15 |
| **Gwyriad Safonol** | **25.7** | **25.0** | **21.3** | **18.8** | **19.4** | **17.3** |

Nodyn :
* yn eithrio myfyrwyr YOR

## Tabl 6c : Tueddiadau mewn Cyfraddau Cyfranogiad Safonol: Israddedigion Amser-llawn yn ôl oedran 2001/02 – 2003/04

| Awdurdod Unedol | Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Israddedigion (o dan 25 mlwydd oed) | | | Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Israddedigion (25 mlwydd oed a throsodd) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 |
| Ynys Môn | 18 | 19 | 17 | 25 | 25 | 21 |
| Gwynedd | -3 | -2 | -9 | 35 | 33 | 13 |
| Conwy | 29 | 23 | 17 | 31 | 25 | 32 |
| Sir Ddinbych | 6 | 6 | 7 | 21 | 23 | 23 |
| Sir y Fflint | 2 | 1 | 0 | -24 | -15 | -8 |
| Wrecsam | -12 | -11 | -12 | 8 | 19 | 23 |
| Powys | 28 | 25 | 24 | -12 | -20 | -14 |
| Ceredigion | -26 | -25 | -26 | 39 | 41 | 38 |
| Sir Benfro | 26 | 24 | 29 | 12 | -1 | -6 |
| Sir Gaerfyrddin | 23 | 26 | 25 | 14 | 11 | 13 |
| Abertawe | -2 | -1 | 1 | 8 | 12 | 9 |
| Castell-nedd Port Talbot | -6 | -4 | -3 | -19 | -13 | 2 |
| Pen-y-bont | 5 | 6 | 10 | 7 | -1 | -2 |
| Bro Morgannwg | 30 | 29 | 29 | -12 | -12 | -8 |
| Rhondda Cynon Taf | -14 | -12 | -7 | -3 | 2 | 1 |
| Merthyr Tudful | -11 | 0 | -5 | -7 | 4 | -4 |
| Caerffili | -13 | -12 | -13 | -36 | -33 | -32 |
| Blaenau Gwent | -36 | -38 | -34 | -24 | -20 | -21 |
| Torfaen | -13 | -9 | -11 | -19 | -13 | -19 |
| Sir Fynwy | 68 | 65 | 57 | -3 | -13 | -21 |
| Casnewydd | 3 | -1 | 0 | -6 | -10 | -11 |
| Caerdydd | -19 | -21 | -22 | 4 | -3 | -4 |
| **Gwyriad Safonol** | **23.5** | **22.4** | **21.3** | **20.5** | **19.5** | **18.4** |

## Tabl 6d : Tueddiadau mewn Cyfraddau Cyfranogiad Safonol yn ôl Rhyw 2001/02 – 2003/04

| Awdurdod Unedol | Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwyr (Gwryw) | | | Cyfraddau Cyfranogiad Safonol ar gyfer Myfyrwr (Benyw) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 |
| Ynys Môn | 5 | 12 | 2 | 12 | 23 | 17 |
| Gwynedd | 5 | 7 | -4 | 5 | 8 | 2 |
| Conwy | 11 | 8 | 7 | 22 | 15 | 17 |
| Sir Ddinbych | -6 | -11 | -8 | 1 | 1 | 4 |
| Sir y Fflint | -13 | -16 | -16 | -11 | -15 | -13 |
| Wrecsam | -20 | -21 | -22 | -17 | -16 | -14 |
| Powys | -5 | -9 | -10 | 11 | 7 | 14 |
| Ceredigion | 14 | 14 | 10 | 41 | 39 | 26 |
| Sir Benfro | 13 | 7 | 6 | 12 | 8 | 9 |
| Sir Gaerfyrddin | 24 | 22 | 21 | 30 | 32 | 27 |
| Abertawe | 4 | 5 | 7 | 6 | 6 | 10 |
| Castell-nedd Port Talbot | -13 | -10 | -4 | -15 | -15 | -9 |
| Pen-y-bont | -6 | -5 | -3 | 3 | -2 | 0 |
| Bro Morgannwg | 20 | 19 | 18 | 12 | 12 | 11 |
| Rhondda Cynon Taf | -12 | -12 | -7 | -13 | -9 | -8 |
| Merthyr Tudful | 2 | 9 | 2 | 5 | 9 | -1 |
| Caerffili | -18 | -14 | -16 | -23 | -18 | -17 |
| Blaenau Gwent | -31 | -28 | -29 | -33 | -31 | -31 |
| Torfaen | -16 | -12 | -14 | -16 | -13 | -19 |
| Sir Fynwy | 28 | 23 | 24 | 31 | 25 | 21 |
| Casnewydd | 2 | -1 | 1 | -12 | -15 | -16 |
| Caerdydd | 10 | 10 | 12 | -7 | -7 | -6 |
| **Gwyriad Safonol** | **15.3** | **14.4** | **13.8** | **18.8** | **18.0** | **15.9** |

## Tabl 7a : Tueddiadau yn Nifer y Myfyrwyr yn ôl Modd Mynychu 2001/02 – 2003/04

| Awdurdod Unedol | Nifer yr holl Fyfyrwyr Cymreig | | | | Nifer y Myfyrwyr Amser-llawn* | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | Newid % 01/02 to 03/04 | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | Newid % 01/02 to 03/04 |
| Ynys Môn | 2,433 | 2,734 | 2,588 | 6% | 1,384 | 1,428 | 1,406 | 2% |
| Gwynedd | 4,405 | 4,603 | 4,314 | -2% | 2,400 | 2,463 | 2,320 | -3% |
| Conwy | 4,006 | 3,980 | 4,053 | 1% | 2,144 | 2,120 | 2,086 | -3% |
| Sir Ddinbych | 3,011 | 3,037 | 3,195 | 6% | 1,596 | 1,635 | 1,703 | 7% |
| Sir y Fflint | 4,621 | 4,579 | 4,689 | 1% | 2,461 | 2,529 | 2,625 | 7% |
| Wrecsam | 3,824 | 3,951 | 4,013 | 5% | 2,126 | 2,229 | 2,277 | 7% |
| Powys | 4,232 | 4,269 | 4,487 | 6% | 2,351 | 2,356 | 2,462 | 5% |
| Ceredigion | 3,968 | 4,080 | 3,869 | -2% | 1,539 | 1,587 | 1,608 | 4% |
| Sir Benfro | 4,312 | 4,319 | 4,406 | 2% | 2,369 | 2,372 | 2,512 | 6% |
| Sir Gaerfyrddin | 7,440 | 7,728 | 7,625 | 2% | 3,628 | 3,729 | 3,814 | 5% |
| Abertawe | 8,713 | 9,043 | 9,482 | 9% | 4,526 | 4,676 | 4,879 | 8% |
| Castell-nedd Port Talbot | 3,980 | 4,175 | 4,520 | 14% | 2,099 | 2,208 | 2,380 | 13% |
| Pen-y-bont | 4,375 | 4,426 | 4,564 | 4% | 2,246 | 2,292 | 2,447 | 9% |
| Bro Morgannwg | 4,770 | 4,963 | 5,024 | 5% | 2,544 | 2,631 | 2,775 | 9% |
| Rhondda Cynon Taf | 7,297 | 7,744 | 8,029 | 10% | 3,769 | 3,929 | 4,161 | 10% |
| Merthyr Tudful | 2,003 | 2,166 | 2,011 | 0% | 857 | 968 | 971 | 13% |
| Caerffili | 4,725 | 5,151 | 5,191 | 10% | 2,470 | 2,583 | 2,600 | 5% |
| Blaenau Gwent | 1,595 | 1,700 | 1,701 | 7% | 760 | 758 | 829 | 9% |
| Torfaen | 2,567 | 2,769 | 2,658 | 4% | 1,296 | 1,391 | 1,388 | 7% |
| Sir Fynwy | 3,574 | 3,583 | 3,560 | 0% | 2,086 | 2,076 | 2,053 | -2% |
| Casnewydd | 4,472 | 4,509 | 4,587 | 3% | 2,424 | 2,395 | 2,545 | 5% |
| Caerdydd | 12,990 | 13,685 | 14,130 | 9% | 6,347 | 6,460 | 6,764 | 7% |
| **Cymru Gyfan** | **103,313** | **107,194** | **108,696** | **5%** | **53,422** | **54,815** | **56,605** | **6%** |

Nodyn :
1) Gall y cyfansymiau fod ychydig yn wahanol i'r ffigurau yn Nhablau 1 i 3 o ganlyniad i dalgrynnu.
* yn eithrio myfyrwyr YOR

## Tabl 7b : Tueddiadau yn Nifer y Myfyrwyr: Myfyrwyr Rhan-amser 2001/02 – 2003/04

| Awdurdod Unedol | Nifer y Myfyrwyr Rhan-amser* | | | | Nifer y Myfyrwyr Rhan-amser (heb gynnwys myfyrwyr credyd isel)* | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | Newid % 01/02 i 03/04 | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | Newid % 01/02 i 03/04 |
| Ynys Môn | 958 | 1,218 | 1,101 | 15% | 878 | 1,128 | 869 | -1% |
| Gwynedd | 1,844 | 1,986 | 1,849 | 0% | 1,558 | 1,609 | 1,420 | -9% |
| Conwy | 1,785 | 1,788 | 1,894 | 6% | 1,651 | 1,679 | 1,671 | 1% |
| Sir Ddinbych | 1,356 | 1,345 | 1,430 | 5% | 1,224 | 1,208 | 1,256 | 3% |
| Sir y Fflint | 2,052 | 1,951 | 1,990 | -3% | 1,894 | 1,812 | 1,863 | -2% |
| Wrecsam | 1,610 | 1,627 | 1,650 | 2% | 1,505 | 1,535 | 1,561 | 4% |
| Powys | 1,790 | 1,824 | 1,930 | 8% | 1,603 | 1,598 | 1,643 | 2% |
| Ceredigion | 2,289 | 2,361 | 2,138 | -7% | 1,644 | 1,816 | 1,683 | 2% |
| Sir Benfro | 1,886 | 1,887 | 1,836 | -3% | 1,679 | 1,659 | 1,621 | -3% |
| Sir Gaerfyrddin | 3,685 | 3,859 | 3,677 | 0% | 2,975 | 3,137 | 2,992 | 1% |
| Abertawe | 3,922 | 4,090 | 4,337 | 11% | 3,481 | 3,558 | 3,702 | 6% |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,800 | 1,888 | 2,047 | 14% | 1,642 | 1,702 | 1,827 | 11% |
| Pen-y-bont | 2,050 | 2,048 | 2,039 | -1% | 1,970 | 1,946 | 1,816 | -8% |
| Bro Morgannwg | 2,120 | 2,212 | 2,130 | 0% | 1,913 | 1,902 | 1,824 | -5% |
| Rhondda Cynon Taf | 3,392 | 3,673 | 3,720 | 10% | 3,257 | 3,191 | 3,143 | -4% |
| Merthyr Tudful | 1,125 | 1,173 | 1,014 | -10% | 1085 | 867 | 819 | -25% |
| Caerffili | 2,167 | 2,480 | 2,504 | 16% | 2,071 | 2,212 | 2,145 | 4% |
| Blaenau Gwent | 812 | 913 | 848 | 4% | 754 | 818 | 759 | 1% |
| Torfaen | 1,224 | 1,332 | 1,222 | 0% | 1,149 | 1,197 | 1,106 | -4% |
| Sir Fynwy | 1,405 | 1,411 | 1,402 | 0% | 1,291 | 1,279 | 1,241 | -4% |
| Casnewydd | 1,951 | 2,033 | 1,955 | 0% | 1,801 | 1,824 | 1,724 | -4% |
| Caerdydd | 6,094 | 6,682 | 6,764 | 11% | 5,418 | 5,772 | 5,654 | 4% |
| **Cymru Gyfan** | **47,317** | **49,781** | **49,477** | **5%** | **42,443** | **43,449** | **42,339** | **0%** |

Nodyn :
1) Gall y cyfansymiau fod ychydig yn wahanol i'r ffigurau yn Nhablau 1 i 3 o ganlyniad i dalgrynnu.
* yn eithrio myfyrwyr YOR

## Tabl 7c : Tueddiadau yn Nifer y Myfyrwyr: Israddedigion Amser-llawn yn ôl Oedran 2001/02 – 2003/04

| Awdurdod Unedol | Nifer yr Israddedigion Amser-llawn (o dan 25 mlwydd oed) | | | | Nifer yr Israddedigion Amser-llawn (25 mlwydd oed a throsodd) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | Newid % 01/02 i 03/04 | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | Newid % 01/02 i 03/04 |
| Ynys Môn | 1,016 | 1,045 | 1,055 | 4% | 209 | 218 | 222 | 6% |
| Gwynedd | 1,710 | 1,717 | 1,655 | -3% | 394 | 403 | 364 | -8% |
| Conwy | 1,616 | 1,567 | 1,535 | -5% | 345 | 344 | 386 | 12% |
| Sir Ddinbych | 1,225 | 1,230 | 1,285 | 5% | 287 | 308 | 326 | 14% |
| Sir y Fflint | 2,013 | 2,012 | 2,050 | 2% | 320 | 377 | 430 | 34% |
| Wrecsam | 1,618 | 1,632 | 1,635 | 1% | 389 | 450 | 493 | 27% |
| Powys | 1,931 | 1,955 | 1,987 | 3% | 275 | 265 | 300 | 9% |
| Ceredigion | 1,100 | 1,134 | 1,167 | 6% | 235 | 251 | 260 | 11% |
| Sir Benfro | 1,930 | 1,951 | 2,071 | 7% | 312 | 293 | 295 | -5% |
| Sir Gaerfyrddin | 2,819 | 2,908 | 2,966 | 5% | 493 | 504 | 547 | 11% |
| Abertawe | 3,433 | 3,543 | 3,728 | 9% | 629 | 683 | 704 | 12% |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,665 | 1,742 | 1,815 | 9% | 289 | 324 | 396 | 37% |
| Pen-y-bont | 1,699 | 1,770 | 1,892 | 11% | 387 | 374 | 385 | -1% |
| Bro Morgannwg | 2,082 | 2,139 | 2,235 | 7% | 277 | 293 | 326 | 18% |
| Rhondda Cynon Taf | 2,869 | 2,985 | 3,187 | 11% | 614 | 669 | 702 | 14% |
| Merthyr Tudful | 671 | 767 | 753 | 12% | 138 | 158 | 152 | 10% |
| Caerffili | 1,971 | 2,032 | 2,055 | 4% | 306 | 334 | 359 | 17% |
| Blaenau Gwent | 569 | 568 | 617 | 8% | 143 | 153 | 159 | 11% |
| Torfaen | 1,003 | 1,072 | 1,093 | 9% | 195 | 218 | 212 | 9% |
| Sir Fynwy | 1,701 | 1,723 | 1,688 | -1% | 208 | 196 | 188 | -10% |
| Casnewydd | 1,886 | 1,869 | 1,967 | 4% | 354 | 353 | 366 | 3% |
| Caerdydd | 4,702 | 4,741 | 4,869 | 4% | 948 | 933 | 1,002 | 6% |
| **Cymru Gyfan** | **41,229** | **42,102** | **43,305** | **5%** | **7,747** | **8,101** | **8,574** | **11%** |

Nodyn :
1) Gall y cyfansymiau fod ychydig yn wahanol i'r ffigurau yn Nhablau 1 i 3 o ganlyniad i dalgrynnu.

## Tabl 7d : Tueddiadau yn Nifer y Myfyrwyr yn ôl Rhyw

| Awdurdod Unedol | NIfer y Myfyrwyr (Gwryw) | | | | Nifer y Myfyrwr (Benyw) | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | Newid % 01/02 i 03/04 | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | Newid % 01/02 i 03/04 |
| Ynys Môn | 1,036 | 1,112 | 1,010 | -3% | 1,397 | 1,622 | 1,578 | 13% |
| Gwynedd | 1,875 | 1,914 | 1,722 | -8% | 2,530 | 2,689 | 2,592 | 2% |
| Conwy | 1,656 | 1,629 | 1,620 | -2% | 2,349 | 2,351 | 2,433 | 4% |
| Sir Ddinbych | 1,263 | 1,207 | 1,255 | -1% | 1,748 | 1,830 | 1,940 | 11% |
| Sir y Fflint | 2,025 | 1,969 | 1,940 | -4% | 2,596 | 2,610 | 2,749 | 6% |
| Wrecsam | 1,650 | 1,626 | 1,577 | -4% | 2,174 | 2,325 | 2,436 | 12% |
| Powys | 1,722 | 1,684 | 1,671 | -3% | 2,510 | 2,584 | 2,815 | 12% |
| Ceredigion | 1,465 | 1,495 | 1,463 | 0% | 2,503 | 2,585 | 2,406 | -4% |
| Sir Benfro | 1,868 | 1,825 | 1,806 | -3% | 2,444 | 2,494 | 2,600 | 6% |
| Sir Gaerfyrddin | 3,080 | 3,076 | 3,029 | -2% | 4,360 | 4,651 | 4,597 | 5% |
| Abertawe | 3,816 | 3,898 | 3,967 | 4% | 4,897 | 5,146 | 5,515 | 13% |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,780 | 1,848 | 1,945 | 9% | 2,201 | 2,327 | 2,575 | 17% |
| Pen-y-bont | 1,819 | 1,850 | 1,877 | 3% | 2,557 | 2,576 | 2,687 | 5% |
| Bro Morgannwg | 2,111 | 2,136 | 2,138 | 1% | 2,659 | 2,826 | 2,886 | 9% |
| Rhondda Cynon Taf | 3,188 | 3,204 | 3,339 | 5% | 4,109 | 4,540 | 4,691 | 14% |
| Merthyr Tudful | 837 | 892 | 831 | -1% | 1166 | 1274 | 1180 | 1% |
| Caerffili | 2,131 | 2,240 | 2,182 | 2% | 2,594 | 2,912 | 3,008 | 16% |
| Blaenau Gwent | 693 | 724 | 708 | 2% | 902 | 976 | 993 | 10% |
| Torfaen | 1,119 | 1,184 | 1,156 | 3% | 1,448 | 1,585 | 1,502 | 4% |
| Sir Fynwy | 1,540 | 1,518 | 1,521 | -1% | 2,034 | 2,065 | 2,039 | 0% |
| Casnewydd | 2,072 | 2,056 | 2,072 | 0% | 2,400 | 2,454 | 2,515 | 5% |
| Caerdydd | 5,902 | 6,149 | 6,257 | 6% | 7,088 | 7,536 | 7,873 | 11% |
| **Cymru Gyfan** | **44,648** | **45,236** | **45,086** | **1%** | **58,666** | **61,958** | **63,610** | **8%** |

Nodyn :
1) Gall y cyfansymiau fod ychydig yn wahanol i'r ffigurau yn Nhablau 1 i 3 o ganlyniad i dalgrynnu.

## ATODIAD B : MANYLION TECHNEGOL

### CYFRADDAU CYFRANOGIAD

1 Gallai mesur sylfaenol o gyfranogiad pobl mewn AU o Awdurdod Unedol fod fel a ganlyn:

$$\frac{\text{Cyfanswm y Myfyrwyr o Awdurdod Unedol}}{\text{Poblogaeth yr Awdurdod Unedol}} \times 100 \qquad (1)$$

ond nid yw'r diffiniad hwn yn arwain at ffigurau ar gyfer Awdurdodau Unedol y gellir eu cymharu'r deg â'i gilydd oherwydd y gwahaniaeth mewn proffiliau rhyw ac oedran ym mhob ardal.

2 Er enghraifft, efallai bod gan Awdurdod Unedol neilltuol gyfradd cyfranogiad cyfartalog neu uwch na'r cyfartaledd ar gyfer pobl ifanc, ond gall fod ganddo nifer uwch na'r cyfartaledd hefyd o bobl hŷn yn byw yno a fyddai'n arwain at gyfradd cyfranogiad is at ei gilydd, oherwydd bod pobl hŷn naill ai wedi cwblhau eu hastudiaethau AU neu'n llai tebygol o ymgymryd ag astudiaeth AU am resymau eraill. I ganiatáu cymharu teg ac i gyfrif am amrywiadau rhanbarthol, rydym wedi cyfrifo cyfraddau cyfranogiad safonedig. I wneud hyn, rydym wedi defnyddio'r nifer disgwyliedig o fyfyrwyr mewn Awdurdod Unedol neilltuol yn enwadur. Ymhellach, y nifer disgwyliedig o fyfyrwyr yn yr enwadur yw swm y nifer disgwyliedig o fyfyrwyr ar gyfer pob un o 18 o grwpiau oedran a rhyw ac mae hyn yn helpu i gyfrif ymhellach am amrywiadau rhanbarthol.

3 Yn nhermau mathemategol, y diffiniad a ddefnyddir o fewn yr adroddiad hwn i gyfrifo 'Cyfradd Cyfranogiad Safonol' ar gyfer pob Awdurdod Unedol a chategori o fyfyrwyr (e.e. amser-llawn) yw

$$\left( \frac{\text{Nifer gwirioneddol o fyfyrwyr o Awdurdod Unedol yn y categori}}{\sum_{\text{all } x} \text{Nifer disgwyliedig o fyfyrwyr o Awdurdod Unedol yn y categori}_x} \right) \times 100 - 100 \qquad (2)$$

lle mae $x$ yn bob grŵp oedran a rhyw a lle mae

$$\text{Nifer disgwyliedig o fyfyrwyr o Awdurdod Unedol yn y categori}_x = \text{Poblogaeth yr Awdurdod Unedol}_x \times \text{Cyfradd cyfranogiad cenedlaethol}_x \qquad (3)$$

a

$$\text{Cyfradd cyfranogiad cenedlaethol}_x = \frac{\text{Cyfanswm y myfyrwyr Cymreig yn y categori}_x}{\text{Poblogaeth Cymru}_x} \qquad (4)$$

4 Mae hyn yn rhoi mesur safonedig, yn dangos yr amrywiad canrannol o'r gyfradd cyfranogiad safonol, sef 100. Felly os yw'r cyfrifiad o gyfradd cyfranogiad safonol yn rhoi 0, mae cyfranogiad yn cyfateb i'r cyfartaledd cenedlaethol. Os yw'r cyfrifiad yn rhoi ffigur negyddol, mae cyfranogiad yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac os yw'n rhoi ffigur positif, mae cyfranogiad yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

### DULLIAU O DDADANSODDI CODAU POST

5 I ddarganfod y cyfraddau cyfranogiad safonol ar gyfer pob un o'r 22 Awdurdod Unedol yng Nghymru, rhaid mapio cod post pob myfyriwr i'w Awdurdod Unedol. Allan o 108,695 o

fyfyrwyr AU Cymreig yn 2003/04, darganfuwyd bod gan 3 y cant ohonynt godau post annarllenadwy neu annilys.

6 Mae llwyddiant o 97 y cant wrth fapio myfyrwyr i Awdurdodau Unedol yn dda o'i gymharu â blynyddoedd cynharach, ond nid yw dosbarthiad daearyddol myfyrwyr â chodau post nad oedd modd eu hadnabod yn hysbys ac mae'n bosibl nad yw'n unffurf ar draws Cymru. Felly gallai'r data coll aflunio'r proffil cyfradd cyfranogiad. Mae Awdurdodau Unedol wedi cael eu neilltuo i fyfyrwyr â chodau post nad oedd modd eu hadnabod drwy dybio eu bod yn dod o'r un Awdurdodau Unedol â myfyrwyr Cymreig eraill yn eu sefydliad, a'u rhannu'n gymesur rhwng yr Awdurdodau Unedol yn unol â phroffil eu cyd-fyfyrwyr.

## DATA AM Y BOBLOGAETH

7 Er mwyn deillio cyfraddau cyfranogiad mae'n rhaid cael manylion y boblogaeth leol, felly mae'r data a ddefnyddir yn y dadansoddiad hwn yn cael eu rhannu yn ôl rhyw a 9 categori oedran.

8 Cafwyd y ffigurau poblogaeth a ddefnyddiwyd drwy gyfuno data poblogaeth yn seiliedig ar y cyfrifiad â data am gyfradd twf y boblogaeth. Y data poblogaeth sylfaenol a ddefnyddiwyd oedd y data ardal o Gyfrifiad 2001 wedi'u haddasu i roi myfyrwyr yn eu cyfeiriad cartref. Ar gyfer pob blwyddyn academaidd, cymhwyswyd cyfradd twf at y data poblogaeth. Deilliwyd hyn ar gyfer cyfuniadau o ryw, grŵp oedran ac Awdurdod Unedol o'r data amcangyfrif poblogaeth canol-blwyddyn. Er enghraifft, defnyddiwyd data amcangyfrif poblogaeth canol-blwyddyn 2004 i ehangu data Cyfrifiad 2001 er mwyn eu defnyddio wrth gyfrifo cyfraddau cyfranogiad 2003/04.

9 I gyfrifo cyfradd cyfranogiad pobl o ardal benodol mewn AU, fel y nodwyd ym mharagraff 13 o'r prif destun, mae arnom angen y nifer o fyfyrwyr o'r ardal, wedi'i bennu yn ôl eu cod post cartref, a chyfanswm y bobl sy'n byw yn yr ardal, a geir o ddata poblogaeth sy'n rhoi myfyrwyr yn eu cyfeiriad cartref.

10 Mae'r ffordd y rhifwyd y boblogaeth yn ystod Cyfrifiad 2001 yn wahanol i'r dull a ddefnyddiwyd yn ystod Cyfrifiad 1991. Rhifwyd myfyrwyr amser-llawn yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor yn unig ac ni chasglwyd llawer o wybodaeth am eu cyfeiriad cartref. Mae'r boblogaeth sylfaen a ddefnyddir yn holl ystadegau Cyfrifiad 2001 yn rhoi myfyrwyr yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor. Nid yw'r wybodaeth gyfyngedig a gesglir am fyfyrwyr yn eu cyfeiriad cartref yn caniatáu'r hyblygrwydd o newid y boblogaeth sylfaen yn gywir i roi myfyrwyr yn eu cyfeiriad cartref. Mae hyn yn broblem wrth gyfrifo cyfraddau cyfranogiad, yn enwedig ar gyfer ardaloedd lle mae dwyseddau uchel o fyfyrwyr yn ystod y tymor, megis Caerdydd ac Aberystwyth, gan y bydd y cyfrif poblogaeth yn rhy uchel, gan roi cyfradd cyfranogiad is na gwir gyfradd cyfranogiad y rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd hyn.

### Pennu'r boblogaeth sylfaen

11 Er mwyn pennu poblogaeth sylfaen briodol, mae angen i fyfyrwyr a rifwyd yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor gael eu tynnu o ddata Cyfrifiad 2001 ac mae angen i'r un myfyrwyr, wedi'u rhifo yn eu cyfeiriad cartref, gael eu hadio'n ôl.

12 O ddata Cyfrifiad 2001, mae'n bosibl pennu'r union nifer o fyfyrwyr y mae eu cyfeiriadau yn ystod y tymor a'u cyfeiriadau cartref yn wahanol, wedi'u rhifo yn eu cyfeiriad cartref, ond nid oes modd croesgyfeirio'r data hyn â'r holl fyfyrwyr a rifwyd yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor er mwyn penderfynu pa fyfyrwyr y mae angen eu tynnu, felly rhaid amcangyfrif y nifer o fyfyrwyr i'w tynnu o'r data sydd ar gael.

13 Gallai myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru fod o unrhyw le arall yn y DU, felly defnyddir data cyfrifiad y DU i amcangyfrif y gyfran o fyfyrwyr i'w thynnu. Gan ddefnyddio data cyfrifiad y DU, gwyddom y bydd nifer y myfyrwyr i'w tynnu yn hafal i nifer y myfyrwyr i'w hadio. Felly mae rhannu'r nifer o fyfyrwyr o'r DU y mae eu cyfeiriadau yn ystod y tymor a'u

cyfeiriadau cartref yn wahanol (a rifwyd yn eu cyfeiriad cartref) â nifer y myfyrwyr o'r DU nad ydynt yn byw gyda'u rhieni (a rifwyd yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor) yn rhoi cyfran o 41 y cant. Mae'r gyfran hon o fyfyrwyr, a rifwyd yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor, yn cael ei thynnu o boblogaeth pob Awdurdod Unedol.

14 Ond mae'n debygol bod y mwyafrif o fyfyrwyr y mae eu cyfeiriad yn ystod y tymor yn wahanol i'w cyfeiriad cartref yn ifancach. Felly er mwyn cymryd hyn i ystyriaeth, caiff y myfyrwyr a dynnir eu proffilio yn ôl cyfrannau oedran/rhyw myfyrwyr o'r DU y mae eu cyfeiriadau yn ystod y tymor yn wahanol i'w cyfeiriadau cartref.

15 Yn olaf, mae'r nifer gwirioneddol o fyfyrwyr y mae eu cyfeiriadau yn ystod y tymor yn wahanol i'w cyfeiriadau cartref, a rifwyd yn eu cyfeiriad cartref, yn cael ei adio'n ôl at bob Awdurdod Unedol priodol i gael amcangyfrif o'r boblogaeth gyda myfyrwyr wedi'u lleoli hyd y bo modd yn eu cyfeiriad cartref.

**Sail resymegol y dull o bennu'r boblogaeth sylfaen**

16 Mantais y dull hwn yw ei fod yn rhoi'r amcangyfrif gorau, ar sail y data sydd ar gael, o boblogaeth y mae ei myfyrwyr wedi'u lleoli yn eu cyfeiriadau cartref, sy'n hanfodol ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfranogiad. Anfantais y dull hwn yw ei fod yn cymryd bod yr un gyfran o'r boblogaeth ym mhob Awdurdod Unedol wedi cael ei chofnodi fel myfyrwyr amser-llawn yn byw oddi cartref pan gynhaliwyd Cyfrifiad 2001, a bod dosraniad oedran y myfyrwyr hyn hefyd yr un fath ym mhob Awdurdod Unedol.

17 Gall hyn fod yn broblem yn arbennig mewn perthynas â'r cyfraddau cyfranogiad a gyfrifwyd ar gyfer Ceredigion. Dengys Map 5 fod cyfranogiad gan israddedigion amser-llawn o dan 25 oed o Geredigion yn isel iawn. Wrth gyfrifo cyfraddau cyfranogiad ar gyfer blynyddoedd cynharach, gan ddefnyddio data poblogaeth o Gyfrifiad 1991 a roddodd myfyrwyr yn eu cyfeiriadau cartref, gwelwyd bod cyfranogiad gan y grŵp hwn o fyfyrwyr o Geredigion yn uchel, er enghraifft, gweler ffigur H7 yng nghyd-gyhoeddiad CCAUC ac ELWa: Ystadegau Addysg Uwch, Addysg Bellach a Hyfforddiant yng Nghymru, 2002/03.

18 Ceredigion yw'r Awdurdod Unedol lle mae Prifysgol Cymru, Aberystwyth wedi'i lleoli. Daw dros 60% o'r israddedigion amser-llawn newydd ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth o Loegr, fel y dangosir yn ffigur S3 yng nghyhoeddiad CCAUC, Ystadegau Addysg Uwch yng Nghymru 2003/04, a dengys Tabl 1.4 yn yr un cyhoeddiad fod 6,079 o israddedigion amser-llawn yn y SAU hwn. Mae'n hysbys bod poblogaeth Aberystwyth yn ystod y tymor yn llawer uwch na'r boblogaeth yn ystod y gwyliau, er nad oes data o Gyfrifiad 2001 i ddangos hyn.

19 Mae'n bosibl bod y gyfran o fyfyrwyr a rifwyd yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor sydd i gael ei thynnu o ddata Cyfrifiad 2001 yn sylweddol uwch na'r 41 y cant a gyfrifwyd uchod, a bod nifer y myfyrwyr o'r ardal a adiwyd yn ôl gryn dipyn yn is. Fel y nodwyd ym mharagraff 10, bydd hyn yn arwain at or-amcangyfrif maint poblogaeth yr ardal, gyda'r canlyniad bod y gyfradd cyfranogiad yn is na gwir gyfradd cyfranogiad y rheiny sy'n byw yn yr ardal.

20 Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd lle ailgyfrifwyd cyfraddau cyfranogiad ar gyfer cyfrannau cynyddol o fyfyrwyr wedi'u rhifo yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor wedi'u tynnu o Geredigion a chyfrannau cyfatebol lai wedi'u tynnu o'r Awdurdodau Unedol eraill, gan gynnal y 41 y cant cyffredinol o fyfyrwyr nad ydynt yn byw gyda'u rhieni wedi'u rhifo yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor wedi'u tynnu o boblogaeth Cymru. Nid oedd dim neu fawr ddim effaith ar gyfer y mwyafrif o grwpiau o fyfyrwyr a'r mwyafrif o Awdurdodau Unedol. Israddedigion o dan 25 oed yr effeithiwyd arnynt fwyaf. Pan gafodd y gyfran a dynnwyd o Geredigion ei chynyddu i 80 y cant, bu gostyngiad o un lefel yn y band thematig (Isel Iawn, Isel, Cyfartalog, Uchel, Uchel Iawn) ar gyfer pum Awdurdod Unedol, er bod y gyfradd cyfranogiad a gyfrifwyd gan y dull gwreiddiol ar gyfer pedwar o'r ardaloedd hyn o fewn pum pwynt o gant i ffin y band thematig. Cynyddodd y band ar gyfer Ceredigion i Gyfartalog.

21 Yng ngoleuni canlyniadau'r dadansoddiad sensitifrwydd hwn a phrinder data poblogaeth sy'n cynnwys myfyrwyr wedi'u lleoli yn eu cyfeiriadau cartref neu ddata addas a fyddai'n ei gwneud hi'n bosibl i dynnu'r cyfrannau cywir o fyfyrwyr yn eu cyfeiriadau yn ystod y tymor o'r data poblogaeth, ystyriwyd bod y dull o gyfrifo amcangyfrif gorau o'r boblogaeth gyda myfyrwyr wedi'u rhifo yn eu cyfeiriad cartref, a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn, yn dderbyniol.

**Dadansoddiadau yn y dyfodol**

22 Mae cofnod myfyrwyr yr AYAU (HESA) wedi cael ei adolygu a chaiff ei ailstrwythuro ar gyfer y flwyddyn academaidd 2007/08. Cesglir cod post cartref y myfyriwr eisoes, ond bydd cyflwyno maes i gasglu cod post y myfyriwr yn ystod y tymor yn ei gwneud hi'n bosibl, am y tro cyntaf, i fapio symudiadau myfyrwyr rhwng eu cyfeiriadau yn ystod y tymor a'u cyfeiriadau cartref. Gall y wybodaeth hon roi cyfle i wella ymhellach y dull a ddefnyddir i addasu'r boblogaeth i leoli myfyrwyr yn eu cyfeiriad cartref. Serch hynny, ni fydd yn bosibl cyfrifo cyfraddau cyfranogiad manwl gywir hyd nes y bydd Cyfrifiad 2011 ar gael, pan obeithir y bydd modd unwaith eto bennu poblogaeth gyda myfyrwyr wedi'u rhifo yn eu cyfeiriad cartref.

**DATA AM FYFYRWYR**

23 Mae'r dadansoddiad hwn yn cynnwys myfyrwyr unigol wedi'u cofnodi ar gofnod myfyrwyr yr AYAU a oedd yn astudio yn ystod y flwyddyn academaidd, hynny yw, rhwng 1 Awst 2003 a 31 Gorffennaf 2004 ar gyfer 2003/04, heblaw am:

- myfyrwyr cwsg (y rheiny sydd wedi peidio ag astudio ond nad ydynt wedi datgofrestru'n ffurfiol),
- myfyrwyr ymweld a chyfnewid sy'n dod i mewn
- myfyrwyr sy'n astudio'r cyfan o'u rhaglen astudio y tu allan i'r DU
- myfyrwyr sy'n ysgrifennu eu traethodau a
- myfyrwyr sabothol

24 I ddewis myfyrwyr sy'n dod o Gymru, cafodd cod post cartref y myfyriwr ei fapio gan ddefnyddio cronfa ddata CCAUC sy'n cynnwys codau post sydd naill ai'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn y DU neu a fu'n cael eu defnyddio ar ryw adeg ers 1997. Daw'r data am godau post o ddata a ddarperir gan yr Arolwg Ordnans a'r Post Brenhinol. Caiff codau post eu mapio i'r ardaloedd daearyddol lle ceir craidd y cod post.